# OLD STABLES - MACHYNLLETH PLAS– HEN STABLAU

# MACHSTABLAU

# Mai 2025





**Annwyl Ffrind Stablau Plas Machynlleth**

Mae hi wedi bod yn rhai misoedd cyffrous iawn yn gwylio'r gwaith yn mynd rhagddo yn Stablau Plas Machynlleth. Mae rhan fwyaf y gwaith o osod llechi ar y to wedi cael ei gwblhau ac mae'r gromen neu'r glochlofft wedi cael ei hadfer a'i phaentio'n goch. Mae cryn dipyn o waith mewnol wedi cael ei wneud i drwsio a disodli strwythurau cynnal pren a chapanau drysau. Mae'r stalau gwreiddiol gwerthfawr wedi cael eu tynnu ar led a'u storio.

Mae hefyd wedi bod yn ychydig fisoedd prysur a dreuliwyd yn cyfathrebu gyda'r gymuned a'r byd ehangach am y prosiect.

Mae'r **poster A1** y mae modd ei weld yng Nghyntedd y Plas wedi cael ei ddiweddaru ac mae hefyd wedi cael ei bostio o gwmpas mannau amrywiol ar dir y Plas. Lluniwyd hwn yn wreiddiol ar gyfer yr Ŵyl Gomedi, felly mawr obeithiwn y bydd pobl eisoes yn ystyried y Stablau fel llety i'w archebu ar gyfer gwyliau yn y dyfodol.






Mae **gwefan Stablau Mach** yn cael ei dylunio ar hyn o bryd, ac fe ddylai fod ar-lein erbyn mis Mehefin. Mae gennym dudalen Facebook (Mach Hen Stablau).

Mae **Prosiect y Murlun** wedi cychwyn. Gosodir y murluniau, a fydd yn cael eu paentio ar baneli, ar waliau'r hen floc toiledau ar dir y Plas. Mawr obeithiwn y byddant yn cael eu gosod tua canol mis Mehefin. Mae sawl grŵp wedi bod yn gweithio'n frwdfrydig i baratoi'r murluniau

gyda'r arlunwyr, sef Liz Fenwick a Hannah Johns.  Y rhain yw Ieuenctid Machynlleth Youth, Grŵp Addysg yn y Cartref, Ysgol Gynradd Bro Hyddgen, y Sgowtiaid Chwilota a Chartref Dyfi.




Mae'r llun ar y chwith yn cynnig syniad o'r dyluniad ar gyfer rhai o'r waliau.  Mae'r themâu yn cynnwys y ceffylau a'r cŵn yr arferwyd eu cadw yn y Stablau, yr ystlumod a oedd yn eu defnyddio'n fwy diweddar, ynghyd ag agweddau eraill ar eu pensaernïaeth a'u hanes.

Mae'r lluniau isod yn dangos rhywfaint o'r gwaith paratoi a wnaethpwyd.







Treuliodd Liz Fenwick ac Anne Marie Carty ddiwrnod yn Ysgol Gynradd Bro Hyddgen a gwnaed llawer o waith i gynhyrchu paneli lliwgar. Dysgodd rhai disgyblion sigiliau sylfaenol ffilmio.





Ymwelodd yr artist Liz Fenwick a Rachel, Cydlynydd Prosiect y Murluniau, â'r cartref gofal ar fore hyfryd ym Mis Mai a chlywed straeon y rhai a weithiodd yn y Plas yn y gorffennol a'u hatgofion o fywyd gwledig o amgylch Machynlleth. Bydd eu straeon am ddisgynyddion teulu Londonderry yn ysbrydoli creu panel murluniau i'w osod ar dir y Plas.



Byddwn yn cadw mewn cysylltiad â chi am y cynnydd gyda'r murluniau, gan roi gwybod i chi pan fyddant yn eu lle.

Derbyniwyd nawdd murlun gan Travis Perkisn Builders ar ffurf prisiau gostyngol ar ddeunyddiau. **Sponsorship** for the mural project has been received from Travis Perkins Builders Merchants in the form of concessionary prices on materials.

Mae Anne Marie Carty yn parhau gyda'i gwaith ar **fideo y Stablau**, a bydd clipiau yn cael eu cysylltu â'r wefan.

**Tasgau presennol:**

- ***Cwblhau gwaith adeiladu Cam Un***
- ***Sicrhau gwerth tua £1.8 miliwn yn ychwanegol i dalu am Gam Dau***
- **Cwblhau a gosod murluniau Stablau Mach**

Os hoffech weld ein cynllun busnes, ac os hoffech gael gwybodaeth bellach neu gyfrannu i'r prosiect fel gwirfoddolwr, cysylltwch â ni: **machstablau@gmail.com**

Cadw

Cronfa Treftadaeth Heritage Fund

Trawsnewid Trefi Transforming Towns

Llywodraeth Cymru Welsh Government

AHF Transforming Heritage